Gan bwysleisio nad yw lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfforddus ag ef, cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at y cyd-destun ariannol anodd a'r hinsawdd ariannol ansicr sydd wedi gwneud y gwaith o baratoi'r gyllideb refeniw dros dro ar gyfer 2024/25 yn dasg heriol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ddarparu cyllideb gytbwys ac er gwaethaf y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor sydd ar lefel debyg i gynnydd dangosol gan awdurdodau eraill, Ynys Môn yw un o'r awdurdodau sy'n codi'r tâl isaf ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru oherwydd rheolaeth ariannol ddarbodus yn y gorffennol. Mae'r rheolaeth honno wedi cryfhau ei sefyllfa ariannol ac yn ei helpu i ddelio yn y tymor byr â'r heriau y mae'n eu hwynebu.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 gyd-destun ychwanegol gan ddweud nad yw'r heriau ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad yn unigryw i Ynys Môn. Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 lle mae'r Prif Swyddog Ariannol yn hysbysu, yn y flwyddyn ariannol, y disgwylir i'r gwariant gan yr Awdurdod fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r gwariant hwnnw. Er nad oes unrhyw gyngor yng Nghymru wedi cyhoeddi hysbysiad Adran 114, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu cynghorau Cymru yn debyg i'r rhai yn Lloegr. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn amcangyfrif bod cynghorau Cymru yn wynebu pwysau cyllidebol o £720m yn 2024/25 a phwysau pellach o £516m yn 2025/26 a £524m yn 2026/27. Pe bai'r sefyllfa yn Ynys Môn yn adlewyrchu amcangyfrif CLlLC, byddai'n rhaid i gyllideb y Cyngor godi £16m yn 2024/25 ac yna cynnydd o £12m yn 2025/26 a 2026/27.

Ymhelaethodd y Swyddog Adran 151 ar y pwysau a'r risgiau ariannol o ganlyniad i hynny sy'n wynebu'r Cyngor, nifer ohonynt yn cynnwys y galw am wasanaethau, chwyddiant, costau pensiwn, ardollau a osodir gan gyrff eraill a gofynion gwasanaeth newydd neu newid mewn gofynion a osodir gan Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Caniatawyd ar gyfer rhai o'r risgiau hynny yn y gyllideb arfaethedig, tra byddai'n rhaid i falansau cyffredinol a chronfeydd eraill gael eu defnyddio ar gyfer eraill pe bai'r risg yn arwain at gost ariannol yn 2024/25. Manylir ar y prif newidiadau i'r gyllideb yn adran 4 yr adroddiad ac amlinellir y risgiau cyllidebol yn adran 6. Mae'r rhain i gyd wedi cyfrannu at y pwysau ar gyllidebau'r Cyngor ac wedi creu'r angen am gynnydd yn y Dreth Gyngor fel y gellir sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25. Gwasanaethau sydd wedi dod o dan bwysau arbennig oherwydd galw cynyddol ac atgyfeiriadau, cost darpariaeth a chymhlethdod achosion yw gofal cymdeithasol Oedolion a Phlant. Mae'n annhebygol y bydd grantiau a ddarparwyd yn 2023/24, sydd wedi helpu i liniaru'r gorwariant yn y gwasanaethau hyn, yn cael eu hailadrodd yn 2024/25 ac felly mae cywiro'r gyllideb o £2.9m ar gyfer gofal cymdeithasol Oedolion a £0.9m ar gyfer Gwasanaethau Plant wedi'i wneud yng nghyllideb ddigyfnewid 2024/25.

Gan edrych ymlaen at 2025/26 a thu hwnt ni ragwelir y bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyngor yn cynyddu mwy nag 1% neu ychydig dros £1m (os o gwbl). Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn wynebu'r un pwysau ariannol yn sgil galw cynyddol a chostau. Amcangyfrifir y bydd hyn yn ychwanegu oddeutu £5m i gyllideb y Cyngor yn 2025/26 gan adael diffyg ariannol o £4m o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal â hyn, bydd y Cyngor wedi defnyddio tua £8m o'i gronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllidebau 2023/24 (£3.78m) a 2024/25 (£4.225m), sefyllfa sy'n anghynaladwy yn y tymor hir. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn galluogi'r Cyngor i adolygu ei ofynion cyllidebol yn y tymor hir lle mae'n rhaid ail-alinio'r gwasanaethau a ddarperir â'r cyllid craidd sydd ar gael. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn dechrau'r broses o leihau'r gwasanaethau a ddarperir, ond bydd yn rhaid cwtogi gwasanaethau yn sylweddol eto yn 2025/26 a'r blynyddoedd dilynol i alluogi'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys ac i gadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar lefel resymol a fforddiadwy. Oni wneir hynny, cynyddir y risg y bydd y Cyngor yn anghynaladwy yn ariannol erbyn 2026/27 neu 2027/28.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog Adran 151 am yr adroddiad a'r cyflwyniad gan gydnabod bod y broses gyllidebol ddrafft wedi bod yn anodd ond gan gydnabod hefyd bod Ynys Môn



DRAFFT

mewn sefyllfa ariannol well na llawer o awdurdodau eraill. Wrth ystyried yr adroddiad rhoddwyd sylw i Ardoll y Gwasanaeth Tân gan nodi bod Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynllunio cynnydd o 10.8% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, gan greu cynnydd o £4.8m yn y gyllideb. Oherwydd y newid yn y boblogaeth, mae cyfraniad Ynys Môn tuag at yr ardoll yn cynyddu o 9.92% i 10.03% o gyfanswm yr ardoll gan arwain at gynnydd o £533k i'r ardoll ar y Cyngor, sy'n cyfateb i gynnydd o 1.12% yn y Dreth Gyngor. Bydd yr ardoll a gyllidir gan y Cyngor yn cynyddu i £4.936m. Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod a oedd tynnu sylw at yr ardoll yn rhywbeth newydd gan nad oedd cyfeiriad ato fel rhan o drafodaethau blaenorol ar y gyllideb. Tynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams sylw at y ffaith ei fod wedi gofyn i'r Prif Swyddog Tân mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ddiweddar a allai sicrhau bod copi o strwythur corfforaethol y Gwasanaeth ar gael i aelodau graffu arno i weld a oedd unrhyw arbedion posibl. Gwnaed cais bod y Prif Swyddog Tân yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol y flwyddyn nesaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau graffu ar y strwythur, er y nodwyd hefyd gan y Pwyllgor fod y Cyngor hwn, fel y pum cyngor arall yng Ngogledd Cymru, wedi ethol aelodau'n gynrychiolwyr ar Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bod gan yr Awdurdod Bwyllgor Gweithredol ac Archwilio hefyd i graffu ar y materion hyn a'u pennu.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall bod gwaith sylweddol wedi'i wneud gan Awdurdod y Gwasanaeth Tân i edrych ar ostyngiadau mewn costau gorbenion canolog er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen a bod panel wedi'i sefydlu i'r pwrpas hwnnw. Cynhaliwyd trafodaethau helaeth ynghylch y pwnc hwn ac efallai y bydd yn bosibl gwneud cais fod allbwn y trafodaethau hynny ar gael i'w ystyried y tu allan i'r cyfarfod hwn ond hefyd gyda golwg ar osod cyllideb y flwyddyn nesaf. Oherwydd y sefyllfa ariannol heriol y mae cynghorau Ynys Môn a chynghorau eraill Gogledd Cymru yn ei hwynebu, trafodwyd a phenderfynwyd y dylid gwahaniaethu a chyfathrebu'n glir ynghylch cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn cysylltiad â gwasanaethau'r cyngor a chynnydd yn y dreth gyngor mewn cysylltiad ag ardoll y Gwasanaeth Tân. Er bod rhai awdurdodau wedi bod yn gwneud hyn ers tro, ystyrid ei bod yn bwysig fod awdurdodau Gogledd Cymru'n gweithredu yr un fath. Mae yna hefyd rywfaint o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y syniad fod awdurdodau'r gwasanaeth tân yn dod yn awdurdodau praeseptu eu hunain fel bod y drafodaeth rhwng yr Awdurdod Tân a'r cyhoedd yn digwydd ar wahân i brosesau cynghorau sir. Er bod cynrychiolaeth o blith aelodau etholedig y Cyngor ar Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'n briodol fod Swyddogion ac Aelodau Etholedig eraill yn cael cyfle i ystyried a herio'r ardoll os ydynt yn dymuno gwneud hynny gan ei fod wedi'i nodi ar ddogfennau biliau'r Dreth Gyngor. Hefyd, o ystyried y sefyllfa ariannol ddifrifol, mae'n rhaid i gynghorau edrych ar bob dull posibl o gadw gwariant o fewn y gyllideb er mwyn osgoi cynnydd yn y Dreth Gyngor a chwtogi gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yr hawl i ofyn am ardoll ychwanegol a hefyd yr hawl i gadw arian wrth gefn ar gyfer unrhyw orwariant yn y flwyddyn.

Wrth siarad fel Cadeirydd Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees y craffwyd yn ofalus ac yn fanwl ar gyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2024/25. Er mai'r cynnydd arfaethedig gwreiddiol yn yr ardoll oedd 10.8%, y cynnig a fydd nawr yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod mewn cyfarfod ar 22 Ionawr 2024 yw cynnydd o 8.85% yn dilyn defnydd cynyddol o gronfeydd wrth gefn. Er bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wynebu'r un heriau ariannol ag awdurdodau lleol, gallai sicrhau'r Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi gwneud gwaith helaeth i leihau'r cynnydd yn yr ardoll cyn belled ag y bo modd.

Mewn ymateb i faterion eraill a godwyd ar gynigion y gyllideb, dyma ymateb yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion–

DRAFT

- O ran sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor a ph’un ai a oes ganddo ddigon o "arian ar gyfer cyfnod anodd" neu hyblygrwydd o ran ei gyllideb i osgoi mynd i drafferthion, dywedwyd wrth y Pwyllgor y rhagwelir y bydd lefel bresennol y Cyngor o falansau cyffredinol nas dyrennir yn £11.1m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Byddai'r defnydd arfaethedig o £1.6m o'r balansau hynny yn 2024/25 yn gadael cyfanswm o £9.5m sy'n cyfateb i 5% o'r gyllideb refeniw net, sef y balans cyffredinol lleiaf fel y pennwyd gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r balansau hyn ar gael os bydd y Cyngor yn wynebu unrhyw wariant annisgwyl neu heb ei gynllunio yn 2024/25. Mae cynghorau sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 wedi rhedeg allan o falansau i bob pwrpas ac nid ydynt yn gallu ariannu gorwariant, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal lefel iach o gronfeydd wrth gefn. Pe bai'n rhaid i'r Cyngor wneud defnydd sylweddol o’i falansau yn 2024/25 yna byddai’n rhaid iddo roi strategaeth ar waith i ailgyflenwi'r balansau hynny yn y blynyddoedd sy’n dilyn.

- O ran dechrau'r broses o osod y gyllideb yn gynt yn enwedig os yw gwneud arbedion neu gwtogi gwasanaethau yn rhan o'r broses honno, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr arbedion sy'n rhan o gynigion Cyllideb 2024/25 wedi'u cyflwyno oherwydd bod mai bach iawn fydd eu heffaith ac oherwydd ystyrir y gall y Cyngor reoli'r gostyngiad mewn capasiti yn y flwyddyn i ddod. Mae trafodaethau anffurfiol ynglŷn â chyllideb 2025/26 eisoes wedi dechrau gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys y math o ddewisiadau y bydd yn rhaid eu gwneud a’r prosesau y bydd yn rhaid eu dilyn i allu sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn honno o ystyried bod disgwyl iddi fod hyd yn oed yn fwy o her na gosod cyllideb 2024/25.

- Gan nodi nad yw'r Cyngor bellach yn gallu diogelu addysg ac ysgolion rhag gostyngiad yn eu cyllidebau, gofynnwyd a oedd yn bosibl mewn achosion lle y gall toriadau effeithio ar ansawdd yr addysgu a/neu nifer y disgyblion, i'r Gwasanaeth weithio gyda'r ysgol i lunio cynllun i'w alluogi i fynd i ddyled am flwyddyn neu ddwy. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae’r Cyngor wedi gorfod gwneud toriad sylweddol yng nghyllideb ysgolion ac nad oedd modd ei osgoi gan fod yr heriau ariannol yn rhy fawr i wasanaethau eraill y Cyngor eu hysgwyddo ar eu pennau eu hunain. Mae sefyllfa ar y gorwel lle fydd hi'n anodd cyflawni cyfrifoldebau statudol gan fod y pwysau'n fwy na'r capasiti a'r cyllid y mae'r Cyngor yn ei dderbyn. Mae angen trafod gyda Llywodraeth Cymru ynghylch gostwng y trothwyon mewn rhai meysydd er mwyn lleihau costau, er y gallai hynny arwain at ddirywiad yn lefel y gwasanaeth neu "ostyngiad a reolir." Fodd bynnag, oni cheir y sgwrs hon mae risg y bydd cynghorau yng Nghymru yn mynd yn fethdalwyr oherwydd y bwlch cynyddol rhwng y galw ac adnoddau.

  O ran ysgolion â diffyg yn y gyllideb dywedodd y Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion hynny'n unigol i'w helpu i fantoli eu cyllideb, ac er y derbynnir bod rhai ysgolion yn gallu gwella o sefyllfa o ddiffyg ariannol o fewn blwyddyn neu ddwy, ni fydd y Cyngor yn caniatáu i ysgol fod mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn heb allu dangos bod ganddi gynllun i unioni'r sefyllfa honno.

- O ran pryder y gallai'r ddarpariaeth o 3.5% a wnaed yng nghyllideb ddigyfnewid 2024/25 ar gyfer chwyddiant yng nghyflogau staff nad ydynt yn athrawon a'r ddarpariaeth o 2% ar gyfer chwyddiant yng nghyflogau athrawon fod yn annigonol a'r goblygiadau i'r gyllideb os yw hynny'n wir, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hyn wedi'i nodi fel risg i'r gyllideb. Efallai y bydd mwy o eglurder ynglŷn â’r sefyllfa cyn i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 gael ei chymeradwyo ac efallai y bydd yn rhaid addasu'r gyllideb yn unol â hynny. Yr her yw sicrhau cydbwysedd ac osgoi gor-ddarparu ar gyfer chwyddiant cyflogau gan y byddai hynny'n golygu cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor gan ystyried hefyd bod disgwyl i’r gyllideb adlewyrchu mor gywir â phosibl y costau amcangyfrifedig o weithredu gwasanaethau'r Cyngor yn 2024/25.

DRAFT

- O ran cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion i gael mynediad at ffynonellau cyllid a/neu grantiau eraill nad ydynt efallai'n ymwybodol ohonynt, neu efallai nad oes ganddynt yr amser i wneud cais amdanynt, dywedwyd wrth y Pwyllgor, ar wahân i grantiau mawr Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, fod y Gwasanaeth Dysgu yn ceisio sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o’r gwahanol ffynonellau cyllid, bach fel arfer sydd ar gael drwy fwletinau wythnosol. Byddai'r Gwasanaeth Dysgu yn hapus i edrych ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar ychydig o brif ffynonellau a bydd yn ystyried cynorthwyo ysgolion i gael mynediad at y cyllid hwn os oes amser a chapasiti ar gael.

  Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod ysgolion yn derbyn llawer iawn o gyllid drwy grantiau a bod yn rhaid iddynt addasu eu cyllidebau wrth i'r grantiau hynny gynyddu neu leihau. Nid yw hyn yn ddelfrydol gan ei fod yn gwneud y gwaith cynllunio a rheoli ariannol yn anos, ac os yw'r grantiau hynny'n cynnwys proses gais, mae hynny'n golygu bod yn rhaid treulio amser ac adnoddau ar baratoi cais. Byddai'n well pe bai cyfran uwch o gyllid grant ar gyfer ysgolion a gwasanaethau eraill y Cyngor yn cael eu cynnwys yn y setliad gan y byddai hynny'n lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â grantiau.

- O ran fod y prinder cyllid yn sbarduno newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau'r cyngor yn cael eu cynllunio a’u darparu gyda phwyslais cynyddol ar gyfuno a rhannu, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes trafodaethau ar hyn o bryd ynghylch ailstrwythuro llywodraeth leol a bod dau ffactor allweddol sef yr amser y byddai ailstrwythuro yn ei gymryd a faint o arbedion y byddai ailstrwythuro yn eu cynhyrchu. Nid yw strwythurau mwy eu maint bob tro yn arwain at leihad mewn costau. Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau a sectorau eraill ac mae gweithio mewn partneriaeth yn un o'i werthoedd craidd. Pan fydd yn ymgysylltu ag eraill, mae'r Cyngor yn gwneud hynny'n dda ac yn effeithiol gyda Swyddogion yn edrych i weld lle gall cydweithio arwain at ganlyniadau gwell a mwy cost-effeithiol.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r rhai a wahoddwyd i'r cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Ken Taylor fod ganddo hyder yn swyddogion a staff y Cyngor ac oherwydd ei fod yn pryderu am effaith cyllid a thoriadau i wasanaethau ar forâl cymunedol roedd y Cynghorydd Jeff Evans yn awyddus i roi gobaith i’r cyhoedd ynghylch y dyfodol a chyfeiriodd yn benodol at y cyfleoedd a'r manteision a allai ddeillio er enghraifft, o Borthladd Rhydd Môn a Chodi’r Gwastad.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwahaniaeth rhwng sefyllfa ariannol y Cyngor a'i allu i gynnal lefelau gwasanaeth presennol a’r cyfeiriad cyffredinol y mae’r Ynys yn mynd iddo. Mae newid yr economi yn cymryd amser ac yn gofyn am gymorth ac ymyriadau Llywodraeth Cymru a'r DU. Mae effaith colli swyddi dros y 10 i 20 mlynedd diwethaf bellach yn cael ei deimlo wrth i'r gostyngiad yn nifer y bobl o oedran gweithio ar yr Ynys gael ei adlewyrchu yn y setliad ac felly mae angen sicrhau Porthladd Rhydd Môn ac Ynys Ynni fel ffyrdd o wyrdroi dirywiad a reolir. Mae creu swyddi o safon yn allweddol i'r ymdrech honno ac er y gall y Cyngor hwyluso a chwarae rhan yn y broses honno, mae pryder y gallai'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd nesaf danseilio gallu'r Cyngor wrth iddo ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau statudol. Mae yna le i obeithio yn ogystal â bwriad ac ymrwymiad i ddenu buddsoddiad i'r Ynys ac i greu twf cyflogaeth. Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn i Lywodraeth Cymru cyn y Nadolig ac mae disgwyl penderfyniad arno ar ôl Mawrth 2024 sy'n golygu y bydd yn rhaid ystyried manteision posibl statws Porthladd Rhydd wrth osod cyllideb 2025/26. Er bod optimistiaeth o ran y tymor hir, ni ellir ei gynnwys ym mhroses gosod cyllideb y Cyngor gan fod hynny'n delio â'r presennol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid adborth y Panel o'i dri chyfarfod yr wythnos flaenorol i graffu ar Gyllideb ddrafft gychwynnol arfaethedig 2024/25. Yn ogystal â chael adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y cynigion hynny, derbyniodd y Panel adroddiadau llafar gan yr Aelodau Portffolio a'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â Dysgu ac Ysgolion, Hamdden,

DRAFT

Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion. Ar ôl ystyried y dogfennau a gyflwynwyd a'r eglurhad a ddarparwyd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio ynghylch manylion ac effeithiau'r cynigion, penderfynodd y Panel gefnogi cynigion y gyllideb fel y'u cyflwynwyd ac argymell y canlynol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol –

- Cyllideb Refeniw net arfaethedig ar gyfer 2024/25 o £184.219m
- Arbedion cyllidebol o £4.773m
- Cynnydd yn y Premiwm Ail Gartrefi o 75% i 100%
- Rhyddhau £4.425m o Falansau Cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wedi'u clustnodi i gydbwyso Cyllideb Refeniw 2024/25
- Cynnydd yn y Dreth Gyngor o 9.78% yn ogystal â 1.12% i dalu am Ardoll y Gwasanaeth Tân.

**Ar ôl craffu ar Gyllideb Refeniw ddrafft gychwynnol arfaethedig 2024/25 ac ystyried y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth ac ymatebion y Swyddogion a'r Aelod Portffolio ynghyd ag adborth y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd cefnogi ac argymell cynigion drafft Cyllideb Refeniw 2024/25 fel y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith sy'n cynnwys y canlynol -**

- **Cyllideb Refeniw net arfaethedig ar gyfer 2024/25 o £184.219m**
- **Arbedion cyllidebol o £4.773m**
- **Cynnydd yn y Premiwm Ail Gartrefi o 75% i 100%**
- **Rhyddhau £4.425m o Falansau Cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wedi'u clustnodi i gydbwyso Cyllideb Refeniw 2024/25**
- **Cynnydd yn y Dreth Gyngor o 9.78% yn ogystal â 1.12% i dalu am Ardoll y Gwasanaeth Tân.**

*(Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio'n unig dros gyflwyno'r cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac nid ar gyfer y cynigion eu hunain).*

**3 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Adroddodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid ar ganlyniad tri chyfarfod y Panel yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 8 Ionawr 2024 i ystyried cynigion Cyllideb Refeniw drafft 2024/25 fel y cyfeirir atynt yn y naratif ar eitem 2 uchod.

**Y Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

DRAFT

## 3 CYNLLUN STRATEGOL CYFRANOGIAD TENANTIAID 2024-29

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Tai a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer 2024-29 i'w ystyried a'i graffu gan y Pwyllgor. Datblygwyd y Cynllun i sicrhau bod Gwasanaethau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i ddatblygu a darparu gwasanaethau tai o'r radd flaenaf i bobl Ynys Môn ac fel olynydd i Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2018-2023. Mae Deddf Tai Cymru (2014) yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru gael strategaeth cyfranogiad tenantiaid gyda'r nod hirdymor o sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad landlordiaid wrth gefnogi a galluogi tenantiaid i gymryd rhan fel y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a chyfrannu at wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai a bwysleisiodd ei bod yn bwysig cynnwys tenantiaid yn y ffordd y gwneir penderfyniadau am eu cartrefi a chael eu barn a'u syniadau ynghylch sut y gellir gwella gwasanaethau tai, cartrefi ac ystadau'r Cyngor ymhellach a bodloni heriau Cam II SATC. Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn nodi sut y bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu cyfranogiad tenantiaid a chynyddu lefelau cyfranogiad yn ystod oes y Cynllun.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai Cymunedol y cefndir deddfwriaethol a'r egwyddorion y tu ôl i'r Cynllun a rhoddodd drosolwg o'r Cynllun gan gynnwys y meysydd blaenoriaeth fel y cytunwyd arnynt gyda'r tenantiaid presennol sy'n cymryd rhan. Y rhai hynny sy'n ymwneud â sicrhau ymgysylltiad effeithiol a rhannu gwybodaeth, grymuso tenantiaid i ddylanwadu ar wasanaethau a'u siapio, gwella gwasanaethau'n barhaus i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, a sicrhau bod gan denantiaid y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan mewn cyfleoedd lle gall tenantiaid gyfrannu. Wrth gyflawni'r Cynllun, bydd y Gwasanaethau Tai yn datblygu nifer o ddulliau cyfranogi ac ymgysylltu a fydd yn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn ffordd hyblyg a chyn lleied neu mor aml ag y dymunant; parhau i ddatblygu dulliau priodol ac arloesol o gyfathrebu â thenantiaid a'u hysbysu am gynnydd; cefnogi tenantiaid i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth fel bod ganddynt y gallu a'r hyder i gymryd rhan, a chymryd ymagwedd ragweithiol tuag at ddatblygu gwasanaethau gan ddefnyddio arfer da gan eraill. Bydd dull y Gwasanaeth Tai yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y cynllun pum mlynedd a bydd Cynllun Gweithredu deuddeg mis yn cael ei gyd-ddatblygu a'i fonitro'n chwarterol gan y grŵp monitro Cyfranogiad Tenantiaid.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun Strategol yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes o ran cyfranogiad tenantiaid. Mae barn defnyddwyr Gwasanaethau Tai yn bwysig gan fod lefelau bodlonrwydd tenantiaid yn cael eu hadlewyrchu yn yr arolwg STAR a gynhelir yn flynyddol ac yn cael eu meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru.

Wrth graffu ar y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid, trafododd y Pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys cadernid y broses ar gyfer rhoi'r Cynllun ar waith a'r heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau nad oes rhwystrau i gyfranogiad oherwydd oedran neu leoliad a bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu gan gydnabod hefyd y gallai rhai pobl fod yn fwy tawedog nag eraill wrth leisio eu barn. Codwyd y dull o ymdrin â chwynion, gan gynnwys sut mae'r cwynion hynny ac ymyriadau'r Gwasanaeth mewn ymateb iddynt yn cyd-fynd â'r Cynllun. Hefyd trafodwyd priodoldeb aelodau etholedig oedd yn gweithredu dros denantiaid, yn ogystal â'r adnoddau ar gael i allu cyflawni'r Cynllun a'r risgiau wrth wneud hynny.

Wrth ymateb i'r materion hynny cadarnhaodd yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion Gwasanaethau Tai y canlynol -

- Bod y broses o ddatblygu'r Cynllun wedi'i chynnal dros nifer o fisoedd gyda mewnbwn y grŵp Cyfranogiad Tenantiaid presennol. Roedd yn gynhwysfawr ac amrywiol o ran y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd. Mae cyfranogiad tenantiaid wedi cael ei annog drwy gydol y broses. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn ymwneud yn agos â TPAS Cymru,

sef sefydliad sy'n helpu i hyrwyddo arfer da o ran cyfranogiad tenantiaid er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn bodloni gofynion statudol.

- Y prif risgiau a’r heriau yw sicrhau bod pawb beth bynnag fo'u cefndir neu brofiad, yn cael cyfle i gymryd rhan a bod cynrychiolaeth deg yn enwedig o ran grwpiau anodd eu cyrraedd gan gynnwys y rhai a allai fod wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio aelodau newydd trwy amryw o ffyrdd ac i wella lefelau hyder tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan yn effeithiol. Ymgysylltir â thenantiaid drwy'r amser ac mae'n broses barhaus lle caiff barn ei chyfnewid a gwybodaeth ei rhannu a lle caiff materion eu codi a’u datrys. Derbynnir bod cyfranogiad da gan denantiaid yn sgwrs ddwyffordd ac mae llawer o denantiaid yn gwybod pwy yw staff Gwasanaethau Tai ac yn gyfforddus i gael y sgwrs honno gyda nhw.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod tystiolaeth o sut mae'r Gwasanaeth wedi gwrando ar farn tenantiaid a sut mae'r safbwyntiau hynny wedi dylanwadu ar benderfyniadau yr un mor bwysig. Er bod y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn adlewyrchiad o sut mae'r Gwasanaeth Tai yn arwain ar y mater hwn, mae angen ystyried sut i gael mewnbwn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ehangach y Cyngor. Hefyd p’un ai y gellir defnyddio'r dulliau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Tai gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

- Gall yr Aelodau Etholedig hynny weithredu dros denantiaid drwy lythyr os awdurdodir iddynt wneud hynny gan y tenant neu fel arall mae'n rhaid gwneud unrhyw sylwadau llafar gan Aelod ym mhresenoldeb y tenant.
- Bod gweithgaredd Gwasanaethau Tai yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sy'n cael ei ariannu o incwm rhent. Mae'r CRT wedi'i neilltuo ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall a gan fod cyllid digonol mae’n gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cyfranogiad Tenantiaid.
- Bod cofnod canolog o faterion/cwynion yn cael ei gadw a'i ddadansoddi, a bod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r heriau ac yn gallu nodi unrhyw batrwm o ran materion o fewn grwpiau neu gymunedau. Yn yr arolwg STAR blynyddol diwethaf yn ogystal ag adlewyrchu meysydd a gyflawnwyd, roedd hefyd yn pwysleisio meysydd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau a lle mae'r Gwasanaeth wedi mynd i'r afael â nhw e.e. symleiddio cyfathrebu am ôl-ddyledion rhent fel bod tenantiaid yn deall y sefyllfa a’i bod yn glir iddynt. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei bod yn bwysig gwrando ar yr hyn sydd gan denantiaid i'w ddweud ac i'r perwyl hwnnw mae wedi cyflwyno arolwg/holiadur y gall tenantiaid gyfrannu ato'n barhaus naill ai ar-lein neu drwy ddulliau eraill.
- Bydd y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei fonitro drwy'r grŵp monitro Cyfranogiad Tenantiaid, Uwch Dîm Rheoli y Gwasanaeth Tai a gan Sgriwtini drwy adroddiad chwarterol y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.

**Ar ôl craffu ar y dogfennau a gyflwynwyd ac ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth ynghyd ag ymatebion yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion, penderfynwyd argymell Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29 i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.**

## 4 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU TAI 2024-29

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Rheoli Asedau ar gyfer 2022-29 i'w ystyried a'i graffu gan y Pwyllgor. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn rheoli, cynnal a buddsoddi yn ei stoc tai dros gyfnod y Cynllun.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Cynllun Strategol gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai a gyfeiriodd at ddiben y Cynllun sef sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau gwybodus am y buddsoddiad mewn eiddo unigol

yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u perfformiad ar sail gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a bod stoc tai'r Cyngor yn darparu cartrefi diogel ac addas i'w denantiaid, yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 a lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn cyrraedd targedau datgarboneiddio.

Crynhodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai feysydd blaenoriaeth y Cynllun Strategol Rheoli Asedau sy'n cynnwys ymateb i'r heriau newydd mewn perthynas â datgarboneiddio a gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn SATC 2023. Cwblhaodd y Gwasanaeth arolwg o gyflwr stoc tai yn 2022/23 sy'n darparu'r sail ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys bodloni gofynion buddsoddi cynllun busnes 30 mlynedd y gwasanaeth a chyflawni SATC 2023. Ymhlith y meysydd buddsoddi bydd newid cydrannau allweddol megis boeleri a cheginau yn unol â'r cylchoedd bywyd disgwyliedig yn ogystal â gosod mesurau ynni adnewyddadwy fel Solar PV a Storwyr Batri.

Dyma'r prif bwyntiau trafod a gododd o waith craffu'r Pwyllgor ar y Cynllun Strategol Rheoli Asedau–

- Effeithiolrwydd rhaglenni a systemau meddalwedd rheoli asedau a'r effaith y gallai materion technegol ei chael ar gyflawni'r Cynllun Strategol.
- Goblygiadau ariannol y Cynllun yn ogystal â sicrwydd ffynonellau ariannu i allu ei weithredu.
- Y trefniadau monitro, llywodraethu a gwerthuso i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni.
- Y ffyrdd y mae'r cynllun yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28, ac yn cyfrannu at eu cyflawni
- Y risgiau o ran cyflawni'r Cynllun a sut y cynigir y caiff risgiau hynny eu lliniaru.

Mewn ymateb, dyma sylwadau'r Aelod Portffolio a'r Swyddogion–

- Rhoddwyd sicrwydd ynghylch y wybodaeth a gedwir gan y Gwasanaeth ac effeithiolrwydd y systemau a ddefnyddir i'w rheoli. Mae data cyflwr stoc yn allweddol wrth sicrhau bod costau'r dyfodol yn gadarn ac yn darparu sail gadarn ar gyfer cynllunio. Mae'r arolwg diweddar a gwblhawyd yn annibynnol o gyflwr y stoc tai yn darparu data sylfaenol newydd sy'n cael ei ategu gan wybodaeth hanesyddol am yr ystâd dai.
- Cadarnhawyd mai'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yw'r brif ffynhonnell gyllid lle mae'r incwm o renti wythnosol tenantiaid ar gartrefi a garejys wedi'i glustnodi ar gyfer gwariant a buddsoddiad yn stoc tai'r Cyngor. O'r herwydd, mae'r CRT yn darparu sail ariannol gadarn ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ac oes y Cynllun. Lle mae elfen o ansicrwydd mewn perthynas â chost gyffredinol bodloni gofynion SATC, gan gynnwys cwblhau Llwybrau Ynni wedi'u Targedu ar gyfer pob cartref sy'n eiddo i'r Cyngor, unwaith y bydd y costau hynny'n hysbys, gellir eu cynnwys yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu lwfans gwaith atgyweirio sylweddol i helpu cynghorau gyda'u stoc tai. Mae yna flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd y bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw wrth ymateb i'r heriau a osodwyd gan SATC 2023 gan gynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu eiddo newydd a buddsoddi mewn cartrefi presennol.
- Cadarnhawyd y trefniadau llywodraethu a gwerthuso ar gyfer y Cynllun, gan gynnwys y dulliau adrodd er mwyn gallu monitro'r cynnydd yn effeithiol drwy gyfarfodydd adolygu Prosiect Asedau, yr Uwch Dîm Arwain Tai, Uwch Dîm Arwain Corfforaethol, a'r Pwyllgor Gwaith. Mae grŵp Monitro Tenantiaid eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer SATC 2023.
- Eglurwyd sut mae'r Cynllun Strategol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy ddatblygu gweithlu gwasanaethau tai Cymraeg eu hiaith a defnyddio contractwyr lleol, gan wneud y defnydd gorau o'r stoc tai trwy fuddsoddi'n amserol a thrwy hynny gyfrannu hefyd at yr economi leol a thrwy gefnogi addysg drwy gysylltiadau'r gwasanaeth â Choleg Menai a chynlluniau prentisiaethau. Disgwylir hefyd i'r daith tuag at

sero net sy'n cynnwys datgarboneiddio stoc tai'r Cyngor a'r technolegau sy'n gysylltiedig ag ef greu cyfleoedd o ran sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Cadarnhawyd bod y prif risgiau'n ymwneud â gwybod cyfanswm cost darparu SATC 2023 yn ogystal â ffactorau yn y farchnad lafur ac argaeledd contractwyr yn enwedig gan y bydd landlordiaid cymdeithasol eraill yn cystadlu am yr un adnoddau ac arbenigedd ar yr un pryd i wneud yr un gwaith. Mae’r drefn gosod rhent a'r codiadau rhent a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn her bellach, sydd, yn ei dro, yn effeithio ar swm y refeniw/incwm i'r CRT ac yn dilyn hynny lefel y buddsoddiad y gall y Gwasanaeth Tai ei wneud yn ei stoc tai. Mae'r Gwasanaeth yn ffodus i fod ymhlith y cyntaf i gwblhau arolwg o gyflwr y stoc tai sy'n allweddol i baratoi rhaglen welliannau a chynnal a chadw wedi'i chynllunio ac mae’n galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen i dreialu'r llwybrau Ynni wedi'u Targedu ac yn fanteisiol o ran sicrhau'r adnoddau i gyflawni'r gwaith. Mae'r Cyngor dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn rhagweithiol wrth osod mesuryddion ynni solar ac mae mesuryddion eisoes wedi’u gosod mewn hyd at 20% o'i stoc tai ac mae 28% o'i stoc wedi cyrraedd SAP75 EPC C.

  Gan nodi bod cael gafael ar gontractwyr yn her a risg bosibl i gyflawni'r Cynllun, cynigiodd y Pwyllgor, a chytunwyd y dylid archwilio dichonoldeb sefydlu tîm neu dimau mewnol i ddarparu rhaglenni gwaith wedi'u cynllunio megis newid ceginau a mesurau ynni adnewyddadwy dros y pum mlynedd nesaf.

**Ar ôl craffu ar Gynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 a nodi ymateb yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -**

- **Argymell Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.**
- **Yng ngoleuni'r prinder contractwyr, gofyn i'r Gwasanaeth Tai archwilio’r posibilrwydd o sefydlu tîm(au) mewnol i ymgymryd â rhaglenni gwaith wedi'u cynllunio fel newid ceginau a mesurau ynni adnewyddadwy a/neu welliannau eraill yn ôl yr angen.**

## 5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL: GWASANAETHAU TAI

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023 mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Gwasanaethau Tai 28 a 29 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Adroddodd y Cynghorydd Gary Prichard a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ar gynnydd mewn perthynas ag adolygiad y Gwasanaeth Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl).

O ran yr adolygiad Sgriwtini o Berfformiad Dangosydd Perfformiad 29 (yr amser a gymerir i osod unedau llety y gellir eu gosod ac eithrio DTLs) cyflwynwyd trefniadau arfaethedig y cylch gorchwyl, llywodraethu a’r cwmpas arfaethedig ar gyfer grŵp Gorchwyl a Gorffen Sgriwtini. Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf y byddai’r grŵp hwn yn cael ei sefydlu i gynnal yr adolygiad ac fe’i gwahoddwyd i enwebu aelodau i gynrychioli'r Pwyllgor ar y grŵp.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynol –

- Y dylai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen gynnwys chwe aelod o'r Pwyllgor
- Mater i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yw gwahodd yr Aelod Portffolio Tai i'w drafodaethau fel y mae'n ystyried yn briodol.
- Mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl, -

DRAFT

